CYNGOR TREF NEFYN

# COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 11/11/2025 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Carys Roberts | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Gareth Jones |
| Rhian Sanson | Catrin Roberts | Caren Jones | Gito Williams | Gruffudd Griffiths |
| Lleucu Jones | Pat Humphreys (Clerc) | | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Rhys Llewelyn a Iwan Evans.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Mared Llywelyn Williams – Eitem 13 - taliad y Cadeirydd
   Pat Humphreys – Eitem 7 – trafod cyflog y Clerc ar y Gyllideb.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 14/10/2025
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Arfon Hughes    Eilio: Gito Williams

4. **Unrhyw Fater Brys**
   1. **Arwydd i Llwybr Waun –** Gruffydd Williams
      Mae'r contractwr wedi gorffen ail wynebu Llwybr Waun ac mae o bellach yn lwybr aml ddefnydd felly mae angen arwydd wrth y llwybr i ddweud wrth gadeiriau olwyn i fynd lawr y llwybr yn hytrach na cario ymlaen ar hyd y llwybr at y grisiau serth sydd wrth y Cliffs.
      Penderfyniad: mae'r Clerc am gael 'proof' gan Designer Signs a'i anfon i'r aelodau ac os yw bawb yn hapus yna ei archebu. Mae aelod lleol Morfa Nefyn yn awyddus i gael llun ar y llwybr unwaith y bydd yr arwydd i fyny hefo aelodau CTN a rhywun mewn cadair olwyn a'i roi yn y Llanw Llŷn ac mae aelod lleol Nefyn yn awyddus i hyrwyddo'r llwybr yma fel llwybr aml ddefnydd.
      Mae un o aelodau Morfa Nefyn yn awyddus i dorri'r llwybr arall sy'n dod allan ar llwybr yr arfodir o gyfeiriad Bwthyn Bryn Bras gan ei fod wedi tagu hefo tyfiant.
      Penderfyniad: gan fod arian CTN yn brin a dim arian grant ar ôl mae aelod lleol Morfa Nefyn am fynd ar ôl Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt ei dorri.
   2. **Cynnal digwyddiad yn Nefyn i helpu hefo costau byw –** Gruffydd Williams
      Derbyniwyd ebost gan aelod o Dim Costau Byw Cyngor Gwynedd yn dweud eu bod am gynnal diwgyddiad yn Nefyn i helpu pobol yr ardal am gostau byw a chymorth ynni. Mae'r digwyddiad am gael ei gynnal wythnos hanner tymor mis Chwefror yn y Ganolfan yn Nefyn a holi maent pa ddiwrnod fysai orau gan aelodau CTN.
      Penderfyniad: y Clerc i anfon ebost yn ôl iddynt yn dweud bod CTN yn hyblyg ynglŷn â'r diwrnod a rhoi rhif ffôn Sian iddynt sy'n delio hefo llogi'r Ganolfan.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

5. **Cais i newid noson cyfarfodydd misol CTN –** Iwan Evans
Gan nad yw'r aelod sydd wedi gwneud y cais yn bresennol fe fydd yn rhaid gohirio'r eitem yma tan mis nesaf. Cafwyd trafodaeth byr arno a'r farn ydi ei fod yn achosi problemau i gynghorwyr eraill os yw'r noson yn cael ei newid ac felly nid ydynt yn cytuno i'r newid yma.
Penderfyniad: ei roi ar agenda mis nesaf a gofyn i'r aelod fod yn bresennol i eguro ei gais ac os nad yw'n gallu bod yn bresennol yna anfon eglurhad cyn y pwyllgor.

6. **Gwasanaethau Goleuo'r Coed Nadolig –** Clerc
Cafwyd diweddariad ar y trefniadau gan y Clerc. Dewiswyd 3 aelod i stiwardio yng ngwasanaeth Edern a 7 aelod i stiwardio yng ngwasanaeth Nefyn a penderfynwyd gofyn i Bennaeth Ysgol Nefyn oleuo'r goeden. Mae'r Cadeirydd am ofyn i unai'r Pennaeth neu Cadeirydd y Llywodraethwyr oleuo coeden Morfa Nefyn ac am adael i'r Clerc wybod.
Ar gais un o aelodau Edern pederfynwyd i'r Cadeirydd anfon llythyr i'r contractwr a osododd y coed i fyny y llynedd i ddweud wrtho na fydd CTN yn ei ddefnyddio eleni.
Cynnig: Arfon Hughes     Eilio: Gruffudd Griffiths

7. **Cyllideb 2026-2027 –** Clerc
Oherwydd nad oedd cworwm i fedru cynnal is-bwyllgor ariannol i drafod y gyllideb mae'r Clerc wedi ei hanfon i bawb gael golwg arni cyn y cyfarfod er mwyn cael trafodaeth lawn arni. Mae'r aelodau yn diolch i'r Clerc a Cadeirydd yr is-bwyllgor ariannol am eu gwaith ar y gyllideb.
Mae'r clerc a'r cadeirydd wedi paratoi cyllideb ar ôl edrych ar y gwariant am y flwyddyn ariannol lawn ddiwethaf sef 2024-2025 a gwariant 2025-2026 hyd yn hyn ac wedi gostwng neu codi'r ffigyrau ar y gyllideb i adlewyrchu'r gwariant yma, aeth y cadeirydd â'r clerc drwy'r ffigyrau hefo gweddill yr aelodau i roi eglurhad iddynt.
Aeth y Clerc allan o'r cyfarfod pan oedd yr aelodau yn trafod ei chyflog hi.
**Torri Llwybrau**
Amcan ffigwr gan fod tendar yn mynd allan a cytundeb 3 blynedd newydd yn dechrau ar y 1.4.26.
**Gwaith Ychwanegol**
Amcan ffigwr gan fod tendar yn mynd allan a cytundeb 3 blynedd newydd yn dechrau ar y 1.4.26.
**Torri Mynwentydd**
Amcan ffigwr gan fod tendar yn mynd allan a cytundeb 3 blynedd newydd yn dechrau ar y 1.4.26.
**Toiledau & Traethau Nefyn a Morfa Nefyn**
Aros yr un fath.
**Yswiriant Cyngor Tref**
Wedi ei adael yr un fath gan ei fod yn ffigwr cytundeb.
**Cyflog y Clerc**
Rhoddwyd yr un swm a'r llynedd yn godiad cyflog i'r clerc.

CYNGOR TREF NEFYN

COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 11/11/2025 am 7yh

Cynnig: Arfon Hughes     Eilio: Gareth Jones

**Treth Incwm y Clerc – HMRC**

Yn y cyflog.

**Pensiwn y Clerc**

Fe fydd y pensiwn yn 3% o'r cyflog.

**Offer Swyddfa**

Aros yr un fath gan and oes cynnydd yn y gwariant.

**Rhoddion / Cyfraniadau**

Aros yr un fath.

**Coed Nadolig**

Wedi ei ostwng gan fod y coed yn llai eleni.

**Cyrsiau**

Aros yr un fath.

**Blodau – Nefyn, Morfa Nefyn ac Ederm**

Aros yr un fath.

**Cyfrifydd – Bacstal**

Wedi ei ostwng i adlewyrchu lleihad yn y costau.

**Ffi Cyfrif HSBC**

Wedi ei ostwng gan fod HSBC wedi gwneud i ffwrdd hefo'r ffi misol.

**Awdit**

Mewnol – aros yr un fath.

Allanol – wedi ei ostwng i adlewyrchu ffioedd archwiliad sylfaenol.

**Ffioedd**

Un Llais Cymru – wedi ei godi i adlewyrchu cynnydd yn y costau.

SLCC – aros yr un fath.

**Dwr Cymru – y fynwent**

Aros yr un fath.

**Rent Siop Siarad**

Aros yr un fath gan ei fod wedi ei gytuno yn y les.

**Trydan – Siop Siarad**

Aros yr un fath.

**Bandeang**

Wedi ei godi I adlewyrchu cynnydd yn y costau.

**Estyniad i Mynwent Morfa Nefyn**

Nid oes unrhyw ddatblygiad i'r mater yma.

**Rent Rhandiroedd**

Aros yr un fath gan ei fod wedi ei gytuno yn y les.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 11/11/2025 am 7yh

**Gof Golofn – Nefyn ag Edern – Glanhau**
Aros yr un fath.
**Etholiad**
Wedi ei ostwng i adlewyrchu ffi yr etholiad diwethaf.
**Llyfrgell - Treth**
Aros yr un fath.
**Llyfrgell – Trydan**
Aros yr un fath.
**Llyfrgell – Glanhau**
Wedi ei godi i adlewyrchu cynnydd yn y costau.
**Llyfrgell – Dwr Cymru**
Aros yr un fath.
**Llyfrgell – Larwm Tân**
Aros yr un fath.
**Llyfrgell Rent**
Aros yr un fath gan ei fod wedi ei gytuno yn y les.
**Llyfrgell – Gwasgtraff ac ail-gylchu**
Ffigwr cytundeb.
**Cynnal a chadw'r Cae Aml Ddefnydd.**
Ffigwr cytundeb.
**Clwb Ieuenctid**
Mae'r clwb ieuenctid yn ail gychwyn Medi 2026 ac mae'r ffigwr yma ar gyfer 2 weithiwr yn y clwb.
**GDPR – Data Protection**
Wedi ei godi i adlewyrchu cynnydd yn y costau.
**Torchau**
Wedi ei godi i adlewyrchu cynnydd yn y costau.
**Taliad y Cadeirydd**
Aros yr un fath.
Awgrymwyd Praesept o £100,000.
Penderfyniad: Derbyniwyd y gyllideb a pasiwyd praesept o £100,000.
Cynnig: Arfon Hughes    Eilio: Mared Llywelyn Williams

8. **Llyfrgell Nefyn – gwaith paentio –** Clerc
Mae'r broblem tamp yn dal i fodoli yn y Llyfrgell, mae adeiladwr lleol wedi bod yno a gan bod Cyngor Gwynedd wedi trefnu gwaith yno y llynedd ac yn y rhan yna mae'r tamp awgrymodd y byddai'n syniad i swyddog o Cyngor Gwynedd fynd yno i'w weld. Barn y swyddog ydi na dim tamp sydd ar y waliau ond yn hytrach na effaith dwr ydio a gan y byddai yn gostus cael adeiladwr Cyngor

Gwynedd yn ôl i sortio hyn allan awgrymodd y swyddog i CTN gael hyd i gontractwr eu hunain i wneud y gwaith.
Penderfyniad: mae dau aelod Nefyn am fynd yno i weld beth sydd angen ei wneud ac adrodd nôl i bwyllgor mis nesaf.

9. **Diweddariad ar Datblygiad Tai Fforddiadwy – Tir ger Helyg –** Cadeirydd
Mae'r Caderiydd wedi cael diweddariad gan Grŵp Cynefin ac wedi ei rannu gyda gweddill yr aelodau.

10. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
    1. **Ymddiriedolaeth Drefol Nefyn –** goleuadau nadolig Nefyn
       Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £2500.00 iddynt.
       Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Catrin Roberts
    2. **Gorymdaith Llusernau'r Nadolig –** cais am gyfraniad ariannol
       Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £800.00 iddynt a gofyn iddynt barchu defnydd o'r Gymraeg a bod y Gymraeg yn cael priodle ym mhob dim y maent yn ei wneud.
       Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gruffydd Williams

11. **Ceisiadau Cynllunio**
Dim.

12. **Ceisiadau Diweddarach**
    1. **C25/0796/42/LL -** Bodtacho Ddu, Nefyn - Cais llawn i godi adeilad amaethyddol ar gyfer storio tail sych.
       Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
       Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gruffudd Griffiths

13. **Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**
- Cyflog y Clerc – £1496.18 (taliad Bacs)
- Mared Llywelyn Williams - taliad y cadeirydd - £300.00
- Cyngor Gwynedd – rent rhandiroedd y Ddôl - £100.00
- Cyngor Gwynedd – cyfraniad toiledau cyhoeddus 25-26 - £12000.00
- A R Jones Electrical – gosod gwresogyddion newydd yn y Llyfrgell - £320.00
- Clerks & Councils Direct – tanysgrifiad - £15.50
- D.M.Parry – trydydd taliad mynwent Nefyn - £990.00
- RBL Poppy Appeal – 3 torch Sul y Cofio - £75.00

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

Cyngor Tref Nefyn



- G.Williams Ffensio Cyf – gwaith yn Parc y Ddôl Nefyn - £216.00
- G.Williams Ffensio Cyf – ail wynebu Llwybr Waun Morfa Nefyn - £8448.00
- John Gwynfor Jones – agor bedd Eleanor Hughes - £550.00
- Ashley Hughes – offer swyddfa - £100.06
- Amberol – 4 planter i cais grant Gwynedd Ni - £2205.60
- HMRC – Paye mis 7 a taliadau ychwanegol - £800.54
- E.On Next – trydan Llyfrgell mis Hydref - £136.60
- Tyddyn Sachau – blodau Nefyn - £252.81

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Arfon Hughes   Eilio: Catrin Roberts

**14. Taliadau wedi eu derbyn**

- Ifan Hughes – angladd William Moss Ingham - £675.00